At Swyddogion Cyfrifol cyrff dyfarnu

1 Awst 2018

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Cyfle ymgysylltu cyn tendro ar gyfer cymwysterau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig i ddysgwyr yng Nghymru rhwng 16 a 19 oed

Yn dilyn cyhoeddi hysbysiad o fwriad i gyfyngu a chomisiynu nifer o gymwysterau ym maes Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, rydym yn awyddus i ymgysylltu â chyrff dyfarnu cydnabyddedig a all fod â diddordeb mewn cymryd rhan mewn proses gaffael i sefydlu contract consesiwn er mwyn datblygu a dyfarnu'r cymwysterau hyn. Byddai cytundeb o'r fath gyda chorff dyfarnu neu gonsortiwm o gyrff dyfarnu a byddai'n galluogi'r cynigydd llwyddiannus i ddatblygu'r gyfres hon o gymwysterau yng Nghymru ar sail ddethol, ar gyfer rhaglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus, am gyfnod penodol o amser.

Tra byddwn yn aros am sylwadau mewn ymateb i'n hysbysiad o fwriad i gyfyngu, a byddwn yn eu hystyried yn llawn, hoffem siarad â chyrff dyfarnu sydd eisoes yn gweithredu yn y sector er mwyn gwella ein dealltwriaeth ni, ac eraill a all fod â diddordeb mewn datblygu cymwysterau yn y maes hwn, ymhellach. Caiff y wybodaeth y byddwn yn ei chasglu ei defnyddio er mwyn datblygu manyleb gychwynnol y contract cychwynnol a fyddai'n cael ei defnyddio pe byddem yn penderfynu parhau â'r broses gaffael.

Rydym wedi cyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Flaenorol (PIN) o'n bwriad i dendro yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr UE (OJEU) ac ar GwerthwchiGymru:

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/search/show/search_view.aspx?ID=JUL261160

Byddwn yn trefnu galwadau cynadledda gyda chynigwyr posibl i'w cynnal rhwng 28 Awst a 7 Medi. Bydd y galwadau ar ffurf trafodaeth strwythuredig gyda ni (sy'n aml yn cael ei galw'n 'ymgysylltu cyn tendro'). Byddai hyn yn golygu y byddwn yn gofyn cyfres o gwestiynau y byddwn wedi'u darparu ymlaen llaw i gyfranogwyr. Bydd yr ymatebion yn anffurfiol ac ni chânt eu hystyried na'u defnyddio i lunio unrhyw broses gaffael ddilynol.

Caiff cwestiynau y bydd cyfranogwyr yn eu gofyn i ni yn ystod y sgwrs eu casglu, felly pan fyddwn mewn sefyllfa i ymateb, byddwn yn cyflwyno un set o wybodaeth i bob parti sydd â diddordeb ar yr un pryd.

Os oes gan eich sefydliad ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymgysylltiad cyn tendro hwn gyda ni, anfonwch e-bost i **procurement@qualificationswales.org** i drefnu galwad. Defnyddiwch **'Ymgysylltu cyn tendro CBE'** ym mlwch pwnc yr e-bost, nodwch eich diddordeb, cadarnhewch y dyddiadau/amseroedd sy'n well gennych rhwng 28 Awst a 7 Medi, ac enwau, teitlau a chyfeiriadau e-bost y rhai a fydd yn cymryd rhan o'ch sefydliad.

Cysylltwch â ni cyn gynted ag y bo'n gyfleus i chi er mwyn sicrhau'r amser sy'n well gennych.

Dim ond cyrff dyfarnu sydd wedi'u cydnabod gan Cymwysterau Cymru a fydd yn gallu cyflawni'r contract hwn, felly rhaid i bartïon sydd â diddordeb fod yn gyrff dyfarnu cydnabyddedig eisoes neu gael cydnabyddiaeth gan Cymwysterau Cymru o fewn cyfnod penodol yn dechrau o gyflwyno'r hysbysiad o fwriad i ddyfarnu contract. Caiff y cyfnod ar gyfer sicrhau cydnabyddiaeth ei gadarnhau yn yr hysbysiad o gontract os byddwn yn parhau i dendro.

Ni fydd cyfranogwyr yn yr ymgysylltiad cyn tendro yn ymrwymedig i gymryd rhan mewn unrhyw ymarfer tendro dilynol. Os byddwn yn parhau â'r broses gaffael ffurfiol, byddwn yn cyhoeddi hysbysiad arall yn OJEU ac ar GwerthwchiGymru (rhagwelir y bydd hyn ym mis Hydref 2018) a byddwn yn cynnal y broses drwy ddefnyddio'r system dendro electronig, eDendroCymru (https://etenderwales.bravosolution.co.uk).
Bydd sefydliadau cymwys nad ydynt yn cymryd rhan yn yr ymgysylltiad cyn tendro, dal yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw ymarfer tendro dilynol.

Crynodeb o'r Camau Gweithredu:

Cyn dydd Gwener 24 Awst 2018, ond cyn hynny yn ddelfrydol: cadarnhau bod gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymarfer hwn drwy anfon e-bost i procurement@qualificationswales.org yn cynnwys y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Yr wythnos sy'n dechrau 13 Awst 2018: byddwn yn anfon amlinelliad o'r cwestiynau yr hoffem eu trafod â chi.

Rhwng dydd Mawrth 28 Awst a dydd Gwener 7 Medi 2018: byddwn yn trefnu galwadau cynadledda ar wahân gyda phob corff dyfarnu i drafod y cwestiynau.

Yn gywir

Elizabeth Frizi

Pennaeth Caffael